CYFRES A2

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

Stori 1 Noa yn ufudd i Dduw

DARLLENWCH
Genesis 6: 5-22

Mae'r stori hon am:
Noa yn adeiladu'r Arch.

Pan wnaeth Duw greu ein byd roedd popeth yn dda a phrydferth. Cyn bo hir, fe fu Adda a'i deulu yn anufudd i Dduw. Roedd Duw wedi dyfaru Iddo erioed eu creu.
Ond roedd un dyn, Noa, yn plesio Duw!

Pwy wnaeth blesio Duw? __ __ __

Un diwrnod dyma Duw yn dweud wrth Noa:
"Mae'r byd mor ddrwg mae'n rhaid i mi ei gosbi. Rydw i am i ti adeiladu llong enfawr, sef yr Arch. Pan fydd hi'n barod, fe fyddaf yn anfon llifogydd mawr ar y ddaear. Fe fydd popeth byw yn marw ond fe fyddi di a dy deulu yn cael eich cadw'n ddiogel yn yr Arch."



Lliwiwch y darlun sy'n dangos rhai o'r anifeiliaid y dywedodd Duw wrth Noa am fynd â nhw i'r Arch. Pan oedd y cwbwl yn saff y tu mewn, dyma Duw yn cau y drws. Roedd Noa yn gwybod y bydden nhw'n cael eu cadw'n saff yng ngofal Duw. Fe allwn ninnau hefyd fod yn saff rhag cosb Duw am ein pechodau pan fyddwn ni'n credu yn yr Arglwydd Iesu fel Gwaredwr.

Enw

DARLLENWCH
Genesis 7: 1-16

Mae'r stori hon am
Y dilyw yn dechrau

Stori 2 Yn ddiogel yn yr Arch

Yn ystod yr amser yr oedd Noa yn adeiladu'r Arch roedd e'n dweud wrth y bobl beth oedd Duw yn mynd i'w wneud. Ond doedd neb yn gwrando ar Noa. Doedden nhw ddim ond yn chwerthin am ei ben!

Fe aeth Noa a'i deulu i fewn i'r Arch. Cyn bo hir dyma hi'n dechrau bwrw glaw. Fe fu hi'n bwrw ac yn bwrw ac yn bwrw, ddiwrnod ar ôl diwrnod ar ôl diwrnod! Fe gododd yr afonydd a'r moroedd yn uchel, uchel. Fe gododd y dŵr dros y coed a'r bryniau i gyd.

Roedd y bobl y tu allan i'r Arch yn credu Noa yn awr, ond roedd hi'n rhy hwyr i fynd i'r Arch. Roedd Duw wedi cau y drws!

Pwy gaeodd ddrws yr Arch?

__ __ __

Tu mewn i'r Arch roedd Noa a'i deulu a'r holl anifeiliaid yn saff!

Am fod Noa wedi credu Duw a bod yn ufudd Iddo roedd Duw yn awr yn eu cadw nhw i gyd yn saff.

Lliwiwch a dysgwch yr adnod.

"... diogel yw'r un sy'n ymddiried yn yr Arglwydd."

Diarhebion 29: 25

Enw

DARLLENWCH
Genesis 8: 1-19

Mae'r stori hon am
Pan ddaeth y dilyw i ben

Stori 3 Dechrau newydd sbon

O'r diwedd dyma'r glaw yn peidio. Ond roedd y dŵr yn cuddio'r mynyddoedd o hyd.

Un diwrnod fe anfonodd Noa gigfran o'r Arch, i weld a oedd y dŵr wedi cilio, ond ddaeth y gigfran ddim yn ôl.

Wedyn, dyma Noa yn anfon colomen allan. Ymhen wythnos dyma fe'n ei hanfon allan eto ac yr oedd pawb yn falch pan ddaeth yn ôl â deilen coeden olewydd yn ei phig. Roedd hyn yn golygu bod pennau'r coed uwchben y dŵr.

Saith diwrnod wedyn dyma Noa yn anfon y golomen allan eto. Y tro hwn ddaeth hi ddim yn ei hôl. Roedd Noa yn gwybod bod y dŵr wedi mynd i lawr yn is, a bod y golomen wedi cael cartref newydd.



O'r diwedd dyma'r Arch yn glanio ar fynydd uchel.

Lliwiwch y darluniau i gyd ac enwch y mynydd.

___ ___ ___ ___ ___ ___

Pan oedd y ddaear wedi sychu fe ddywedodd Duw wrth Noa,

"Dos allan o'r Arch a'r anifeiliaid gyda thi."

Fe gafodd Noa a'i deulu eu cadw rhag y dilyw yn yr Arch. Fe gawn ninnau ein cadw rhag cael ein cosbi am ein pechodau wrth gredu bod yr Arglwydd Iesu wedi cael ei gosbi yn ein lle ni.

Pwy gafodd ei gosbi am ein pechodau ni?

Yr __ __ __ __ __ __ __   __ __ __ __ .

CYFRES A2

amserbeibl

Enw

DARLLENWCH
Genesis
8: 20-22 & 9: 8-17

Mae'r stori hon am:

Noa yn dweud diolch

Stori 4 Addewid Duw

Roedd Noa a'i deulu yn saff! Roedden nhw wedi bod yn yr Arch am amser hir, ond yn awr fe ddywedodd Duw y medrai Noa a'i deulu a'r anifeiliaid adael yr Arch.

Fe ddywedodd Noa "Diolch" wrth Dduw am ei gadw ef a'i deulu'n saff.

Beth ddywedodd Noa wrth Dduw?

D __ __ __ ____

Lliwiwch yr addewid a roddodd Duw i Noa.

"Ni fydd dilyw arall yn difa'r ddaear."

Yna dyma Duw yn dangos rhywbeth iddyn nhw fyddai yn eu hatgoffa o'i addewid, sef bwa neu enfys..

Lliwiwch y llun

Bob tro yr oedd Noa a'i deulu yn gweld bwa roedden nhw'n cofio addewid Duw.



10

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 1 A2

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120